Rhif: WG38867

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad — crynodeb o'r ymatebion

Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru

Awst 2019

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-123-7

Cyflwyniad

1. Mae’r amgylchedd hanesyddol morol yn rhoi inni ymdeimlad o le ac yn helpu i lunio ein hunaniaeth. Gwnaiff gyfraniad pwysig at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy lawer o wahanol weithgareddau. Mae’r canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli’r amgylchedd hanesyddol morol yn hen ac nid ydynt yn addas i’w diben. Mae angen canllawiau newydd sy'n adlewyrchu athroniaeth ac arfer cadwraeth modern i lywio'r gwaith o reoli a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol morol.

2. Rhwng 11 Mawrth a 3 Mehefin 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar ganllawiau arfaethedig sy'n egluro dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â threftadaeth danddwr ac yn cynnig canllawiau arfer gorau ar gyfer ei gwarchod a’i rheoli.

3. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau gwe penodedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgyngoriadau, lle y gellid lawrlwytho'r ddogfen ganllaw. Roedd y ffurflen ymateb ar gael fel ffurflen ar-lein ac fel dogfen Word y gellir ei lawrlwytho.

4. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad. Cyfeiriwyd ato ar wefan, ffrwd Twitter a thudalen Facebook Cadw. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ym mwletin ‘Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol’ Cadw, a ddosbarthwyd i tua 350 o randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd oedd â diddordeb. Anfonwyd neges e-bost at yr un derbynwyr yn eu hatgoffa am yr ymgynghoriad.

Yr ymatebion

5. Cafwyd 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad (26 o ymatebion o sylwedd). Cyflwynwyd pum ymateb ar-lein lle roedd pob cell yn gwbl wag ac felly ni chawsant eu cynnwys yn yr ystadegau canlynol. Darperir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1, gyda'r manylion wedi'u dileu lle y gofynnodd yr unigolion hynny am gael bod yn ddienw.

6. Anfonwyd 15 o ymatebion o gyfeiriadau yng Nghymru. Er bod y gweddill o'r tu allan i Gymru neu o gyfeiriadau nas datgelwyd, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn adlewyrchu budd neu ddiddordeb yn amgylchedd hanesyddol morol Cymru.

7. Rydym yn croesawu'n arbennig yr ymateb a gawsom gan Pupils 2 Parliament. Prosiect sy'n galluogi disgyblion ysgol i ystyried eu safbwyntiau a'u bwydo i ymchwiliadau seneddol, ymchwiliadau gan lywodraeth genedlaethol a chyrff cenedlaethol ac ymgyngoriadau cyhoeddus yw Pupils 2 Parliament. Roedd yr ymateb a gafwyd gan Pupils 2 Parliament yn cynnwys safbwyntiau 22 o ddisgyblion ysgol 10 ac 11 oed o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tref-y-clawdd, Powys.

8. Categoreiddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn Ffigur 1.



Ffigur 1. Ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl categori

C1.	**A yw rhan un yn nodi'n glir natur yr amgylchedd hanesyddol morol a pham ei fod yn bwysig?**

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	**Cyfanswm**
18	0	0	4	**22**
82%	0%	0%	18%	**100%**

Dadansoddiad cryno

9. Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno bod y ddogfen yn nodi'n glir natur yr amgylchedd hanesyddol morol a pham ei fod yn bwysig. Nododd 18 allan o 22 yn benodol eu bod yn cytuno, ac ni chyflwynodd pedwar arall farn bendant ond gwnaed sylwadau o sylwedd ganddynt. Nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr yn anghytuno.

10. Rhoddodd dau gorff sy'n cynrychioli sefydliadau archaeolegol ganmoliaeth i'r ddogfen am gyfeirio at archaeoleg nad yw'n ddynodedig, ond roedd dau arall o'r farn nad oedd yn rhoi digon o sylw i archaeoleg o'r fath.

11. Awgrymodd nifer o sefydliadau y gellid newid neu ad-drefnu geiriad y ddogfen er mwyn rhoi eglurder ynghylch amrywiaeth o faterion. Ymhlith y rhain roedd esboniadau o fathau o arolygon, safleoedd damweiniau awyrennau, gweithrediadau achub, y mathau o fygythiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol morol a rhai o'r systemau adrodd a ddefnyddir.

12. Nododd un grŵp ei bod yn bwysig rhoi'r un pwysigrwydd i asedau hanesyddol ar y tir ac ar y môr. Teimlai nifer o sefydliadau eraill y gellid ymestyn y canllawiau i gydnabod meysydd eraill y gellid effeithio arnynt, fel aberoedd afonydd a thirweddau tanddwr.

13. Hefyd, gofynnodd amrywiaeth o sefydliadau am gyfeiriad at brosiect CHERISH mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a sawl cwestiwn arall.

Ymateb Lywodraeth Cymru

14. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gadarn o blaid y ffaith bod y ddogfen yn nodi'n glir natur a phwysigrwydd amgylchedd hanesyddol morol Cymru. O ystyried awgrymiadau'r ymatebwyr, rydym wedi cynnig esboniadau ac wedi gwella'r canllawiau.

15. Cafodd rhagor o wybodaeth am bwysigrwydd asedau hanesyddol nad ydynt yn ddynodedig a'r cyfraniad a wnânt at nodweddion unigryw lleol ei chynnwys. Mae'r adrannau at fathau o arolygon, safleoedd damweiniau awyrennau a gweithrediadau achub wedi cael eu hegluro.

16. Mae'r ddogfen bellach yn cydnabod y gall yr amgylchedd hanesyddol morol ymestyn i estyniadau llanw uchaf afonydd yn ogystal â'r arfordir ei hun.

17. Ychwanegwyd gwybodaeth am fygythiadau i'r amgylchedd hanesyddol morol, gan gynnwys cyfeiriad at brosiect CHERISH i dynnu sylw at effaith y newid yn yr hinsawdd ar asedau hanesyddol arfordirol a thanddwr.

C2.	**Er gwaethaf y cyfundrefnau deddfwriaethol gwahanol, a yw'r canllaw yn ei gwneud yn glir bod egwyddorion ein dull o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol yn ddi-dor rhwng tir a môr?**

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	**Cyfanswm**
12	2	5	3	**22**
55%	9%	23%	13%	**100%**

Dadansoddiad cryno

18. Cytunai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod y canllawiau'n nodi'n glir egwyddorion dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r amgylchedd hanesyddol a'i fod yn ddi-dor rhwng tir a môr. Roedd 12 allan o'r 22 o ymatebwyr yn cytuno ac roedd dau yn anghytuno. Ni wnaeth tri ymatebydd ateb y cwestiwn, ond gwnaed sylwadau o sylwedd ganddynt.

19. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad, nad yw'r cyfundrefnau dynodi a rhoi caniatâd yn ddi-dor am eu bod yn gymhleth, a bod hyn yn anorfod. Gwnaethant hefyd nodi y byddai'n anodd

gwneud y prosesau'n ddi-dor oherwydd yr ystyriaethau rheoli gwahanol sydd eu hangen ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol a'r meini prawf gwahanol ar gyfer dynodi a nodir yn Neddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 a Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

20. Awgrymodd sawl ymgynghorai y dylai'r canllawiau adlewyrchu'n gliriach y gydberthynas ac unrhyw orgyffwrdd â chynlluniau eraill megis cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau morol. Gwnaethant ofyn am gynnwys mwy o wybodaeth am reoli safleoedd ar y tir er mwyn cynorthwyo cymariaethau a chysondeb â'r gwaith o reoli'r amgylchedd hanesyddol morol.

21. Hefyd, awgrymodd dau ymatebydd y byddai'n fuddiol petai'r canllawiau'n cynnwys datganiad cyffredinol ar y dechrau i esbonio pam y dylai'r cyfundrefnau gwahanol fod yn ddi-dor.

22. Gofynnodd ambell ymatebydd am wneud y meini prawf ar gyfer asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth yn gliriach, gan dynnu sylw at y ffaith na fydd arwyddocâd rhai asedau hanesyddol yn hysbys a bod angen asesu hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

23. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sylwadau'r ymatebwyr yn ofalus. Yn unol â hynny, rydym wedi newid y canllawiau i geisio nodi dull di-dor y cyfundrefnau deddfwriaethol gwahanol ar y tir a'r môr yn gliriach.

24. Mae *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw eisoes yn amlinellu ffordd o feddwl am arwyddocâd, sydd ar wahân i'r meini prawf dynodi, ac ystyriwn y gellir cymhwyso hyn yn effeithiol yn yr amgylcheddau hanesyddol tirol a morol.

25. Rydym wedi ceisio nodi lle y ceir gorgyffwrdd a chysylltiadau â chynlluniau eraill a'r ffordd y mae cynigion rheoli a datblygu ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol morol yn perthyn i'w gilydd.

26. Rydym hefyd wedi egluro'r adran ar asesu'r effaith ar dreftadaeth. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn y ddogfen *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru,* a gyhoeddwyd yn 2017, y cyfeirir ati yn y ddogfen ganllaw hon ac y dylid ei defnyddio ar y cyd â'r ddogfen ganllaw hon.

C3.	**A yw'r fframwaith penderfynu'n glir ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol morol, fel y'i disgrifir yn rhan tri, i ymgeiswyr ac i benderfynwyr?**

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	**Cyfanswm**
12	3	3	3	**21**
57%	14%	14%	14%	**100%**

Dadansoddiad cryno

27. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr, sef 12 allan o 21, yn cytuno bod y fframwaith penderfynu yn glir i ymgeiswyr ac i benderfynwyr. Nododd tri ymatebydd eu bod yn anghytuno, a hynny'n bennaf oherwydd gwahanol ofynion ceisiadau am drwyddedau morol a chaniatâd cynllunio. Gwnaeth y tri ymatebydd na wnaethant ateb y cwestiwn gynnig awgrymiadau i egluro'r fframwaith penderfynu.

28. Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr sylwadau ar geisio cyngor cyn gwneud cais. Roedd un sefydliad yn croesawu'r wybodaeth a roddwyd. Fodd bynnag, awgrymodd dau ymatebydd arall y gellid ymestyn hyn drwy nodi o dan ba amgylchiadau y dylid ceisio cyngor.

29. Hefyd, gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad ynghylch amrywiaeth o faterion eraill, gan gynnwys rôl awdurdodau rhoi caniatâd penodol a'r diffiniadau o asedau hanesyddol y cyfeirir atynt yn y canllawiau.

30. Roedd ambell ymgynghorai hefyd am gael eglurhad pellach ynghylch y gydberthynas rhwng deddfwriaeth a pholisi morol a Chonfensiwn 2001 UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Danddwr a'r pwys y dylid ei roi i'r confensiwn yn y broses benderfynu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

31. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y wybodaeth a roddwyd am gyngor cyn gwneud cais yn ddigon manwl; gall diffinio amgylchiadau pan ddylid ceisio cyngor cyn gwneud cais fod yn rhy ragnodol gan fod angen i geisiadau gael eu hystyried fesul achos. Gwnaed rhai newidiadau er mwyn gwneud y canllawiau'n gliriach ynghylch rolau a chyfrifoldebau awdurdodau rhoi caniatâd a datblygwyr.

32. Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn cynnwys diffiniadau o asedau hanesyddol a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canllawiau hyn, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa er mwyn gweld a ddylid dyblygu'r rhain yn y canllawiau neu a fydd cyfeirio atynt yn gliriach yn ddigonol.

33. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y canllawiau'n nodi'n glir rôl Confensiwn 2001 UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Danddwr. Er nad ydynt wedi'u cadarnhau gan y DU, mae'r egwyddorion a nodir yn yr atodiad i'r Confensiwn wedi cael eu mabwysiadu a dylid rhoi arferion ar waith yn unol â'r egwyddorion hynny ac enghreifftiau cydnabyddedig eraill o arfer gorau.

C4.	A yw'n briodol bod â mecanweithiau cofrestru a dynodi llongddrylliadau gwarchodedig i warchod safleoedd llongddrylliadau arwyddocaol?

Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Sylw yn unig	**Cyfanswm**
13	0	6	2	**21**
62%	0%	29%	9%	**100%**

Dadansoddiad cryno

34. Roedd dros hanner yr ymatebwyr, sef 13 allan o 21, yn cytuno ei bod yn briodol cael mecanweithiau cofrestru a dynodi llongddrylliadau gwarchodedig i warchod safleoedd llongddrylliadau arwyddocaol. Nid oedd unrhyw un yn anghytuno. O'r ddau sefydliad nad atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol ond a wnaeth sylwadau, dywedodd un ei fod yn cefnogi un system warchod ac roedd y llall o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r ddwy system.

35. Fodd bynnag, roedd ambell ymatebydd, a oedd yn cytuno ei bod yn briodol, o'r farn y dylai'r canllawiau fod yn gliriach ynghylch y gwahaniaethau rhwng y ddwy system, yn arbennig wrth ystyried y canlyniad rheoli mwyaf priodol. Gwnaethant hefyd awgrymu y gellid cyfuno'r prosesau dynodi er mwyn sicrhau'r dull gwarchod gorau.

36. Hefyd, gwnaeth nifer o sefydliadau awgrymiadau ar ffyrdd y gellid gwarchod safleoedd yn well, megis cyflwyno dirwyon uwch am weithgareddau anghyfreithlon, defnyddio technoleg i ddiogelu safleoedd a defnyddio fflydoedd diogelu pysgodfeydd i ymyrryd mewn troseddau treftadaeth forol.

37. Gwnaeth nifer o ymgyngoreion hefyd awgrymu y dylai ardaloedd gwarchodedig gael eu hymestyn, er enghraifft drwy ymgorffori treftadaeth ddiwylliannol danddwr mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

38. Mae Llywodraeth Cymru yn falch o nodi bod mwy na hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod y mecanweithiau ar gyfer dynodi a gwarchod safleoedd llongddrylliadau arwyddocaol yn briodol. Mae'r geiriad wedi cael ei newid rywfaint er mwyn sicrhau bod y canlyniad rheoli mwyaf priodol hefyd yn cael ei ystyried.

39. Noda Llywodraeth Cymru hefyd fod llawer o'r mesurau diogelu ychwanegol a awgrymwyd gan ymatebwyr eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973. Mae mater cyfuno'r mesurau hyn â Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

40. Yn yr un modd, mae ymestyn ardaloedd gwarchodedig megis Ardaloedd Morol Gwarchodedig hefyd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

C5.	**Fe hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio Cymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau fyddai yn eich tyb chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu effeithiau negyddol gael eu lleihau?**

Dadansoddiad cryno

41. Gwnaeth saith allan o'r 22 o ymatebwyr sylwadau o sylwedd ar effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd defnyddio enwau Cymraeg ar gyfer lleoedd ac asedau hanesyddol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd lle y caiff enwau newydd eu pennu. Tynnodd sawl ymgynghorai sylw at bwysigrwydd enwau lleoedd arfordirol hanesyddol sydd, fel y rhan fwyaf o enwau lleoedd Cymraeg, yn cyfeirio at dopograffi, diben, digwyddiadau hanesyddol a phobl; cynigiodd rhai ohonynt y syniad o greu cofrestr yn debyg i'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Awgrym arall oedd defnyddio arddangosfeydd dwyieithog mewn amgueddfeydd. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r Gymraeg fod yn un o'r prif ystyriaethau ym mhob cynnig datblygu.

42. Nid oedd tri ymatebydd yn gweld unrhyw gysylltiad, dywedodd dau ymatebydd nad oeddent yn gymwys i ateb ac ni chafwyd unrhyw sylwadau gan naw ymatebydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

43. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod lle hanfodol i'r Gymraeg yn yr amgylchedd hanesyddol morol.

44. Mae'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru eisoes yn cynnwys llawer o gofnodion o ranbarthau arfordirol Cymru. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan sawl ymatebydd, mae'r amgylchedd hanesyddol morol yn faes cyfoethog ar gyfer ymchwil pellach i enwau lleoedd. Wrth i'r Rhestr dyfu bydd yn ymgorffori gwybodaeth newydd am enwau lleoedd morol a thrwy hynny bydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, i awdurdodau lleol ac i benderfynwyr eraill. Mae swyddog enwau lleoedd llawn amser y Comisiwn Brenhinol ar gael i weithio gyda grwpiau sy'n awyddus i fwy o leoedd mewn ardaloedd penodol gael eu cynnwys, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol morol.

C6.	**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol defnyddiwch y lle gwag hwn i ddweud wrthym amdanynt.**

Crynodeb o'r sylwadau ychwanegol

45. Gwnaeth 21 o ymatebwyr sylwadau ychwanegol. Cafodd y rhai a oedd yn uniongyrchol berthnasol i gwestiynau cynharach eu hystyried wrth ddadansoddi'r agweddau hynny.

46. Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y ddogfen ganllaw yn cydnabod yr amrywiaeth o fygythiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol morol, o'r newid yn yr hinsawdd i symud deunyddiau yn anghyfreithlon. Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu ynghylch y bygythiad penodol a gyflwynir gan symud arteffactau yn anghyfreithlon o safleoedd newydd eu darganfod, a gwnaethant nodi y dylai'r canllawiau fod yn fwy penodol ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng achub cyfreithlon ac anghyfreithlon. Roeddent hefyd o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y niwed a achosir gan weithgareddau anghyfreithlon.

47. Dywedodd tri ymatebydd y gall costau trwyddedau a chaniatâd fod yn rhy uchel i fusnesau llai ac unigolion ac y dylid hyrwyddo ffynonellau posibl o gymorth grant.

48. Gofynnodd dau ymatebydd am eglurhad o'r defnydd o Archwilio a Coflein am na ddylid eu defnyddio yn y broses o reoli na chynllunio datblygiad.

49. Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel adnodd i hybu'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol morol a'r môr yn fwy cyffredinol a darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar yr un pryd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

50. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr awgrymiadau a wnaed yn ofalus ac wedi newid y testun er mwyn gwella ac egluro gwybodaeth lle y bo'n briodol. Rhoddwyd mwy o amlygrwydd i'r amrywiaeth o fygythiadau posibl sy'n wynebu'r amgylchedd hanesyddol morol, a'u heffeithiau.

51. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* eisoes yn nodi'r gofyniad ar gyfer defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth gynllunio datblygiad ac y dylid ceisio cyngor ar eu defnydd gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Mae'r canllawiau wedi cael eu diwygio i ailadrodd y cyngor hwn.

Pupils 2 Parliament

52. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Pupils 2 Parliament a'r plant o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tref-y-clawdd, Powys, am eu cyfraniad at yr ymgynghoriad. Roedd y wybodaeth a roddwyd gan y plant yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Roedd yr awgrymiadau, y sylwadau a'r safbwyntiau yn dangos gwir werthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol morol a'r angen i'w ddiogelu er mwyn sicrhau ei ddyfodol. Un peth yn arbennig a oedd yn peri i rywun feddwl oedd syniadau'r plant ynghylch sut y gallem wneud i bobl gymryd mwy o ddiddordeb a phryderu'n fwy am ofalu am yr amgylchedd hanesyddol morol. Cafwyd llawer o syniadau ynglŷn â chyflwyno gwybodaeth a deunydd hanesyddol yn well, a'r angen i dywys pobl i feithrin gwell dealltwriaeth o fwy o bethau o dan y dŵr ac ar hyd y draethlin. Ymhlith y syniadau eraill roedd y cyfle i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chamerâu tanddwr er mwyn i bobl weld lluniau o longddrylliadau a phethau eraill o dan y môr yn fwy cyffredinol.

Rhestr ymatebwyr

Mae pob cofnod yn rhoi rhif yr ymateb i'r ymgynghoriad, enw'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n ymateb (oni ofynnwyd inni beidio â'i ddatgelu) a lleoliad yr ymatebydd (os yw'n hysbys).

Rhif	Enw	Lleoliad yr annedd
001	Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Caerdydd
002	John Les Tomos	Sir y Fflint
003	James Davies	Ni chafodd ei ddarparu
004	Cymdeithas Broffesiynol yr Hyfforddwyr Gyrru	Bryste
005	Gofynnwyd am gael bod yn ddienw	Llundain
006	Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain	Llundain
007	Offshore Petroleum Regulator for Environment & Decommissioning, Department for Business, Energy and Industrial Strategy	Aberdeen
008	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent	Abertawe
009	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed	Llandeilo
010	Cyngor Sir Ynys Môn	Llangefni
011	Wessex Archaeology	Wiltshire
012	Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr – Cymru	Ni chafodd ei ddarparu
013	Cyngor Dinas Casnewydd	Casnewydd
014	Cyfoeth Naturiol Cymru	Bangor
015	Y Cyd-bwyllgor Polisi Archaeoleg Forwrol	Gorllewin Sussex
016	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	Caerdydd
017	Pupils 2 Parliament — Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tref-y-clawdd	Tref-y-clawdd
018	Dr Sian Rees	Rhaglan
019	Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Hwlffordd
020	Historic England	Llundain
021	Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr	Reading
022	Dr Hayley Roberts	Bangor
023	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Aberystwyth
024	Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru	Ni chafodd ei ddarparu
025	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Casnewydd
026	Heb ei gwblhau	
027	Heb ei gwblhau	
028	Heb ei gwblhau	
029	Heb ei gwblhau	
030	Heb ei gwblhau	
031	Elinor Gwynn, Prifysgol Aberystwyth	Aberystwyth